

DARLLENAIS â diddordeb y geiriau a ysgrifennodd y diweddar Ddr. E.D. Jones yn y rhifyn diwethaf ar 'Lyfrau Pobl eraill'.

Mae gennyf yn fy meddiant ddau lyfr diddorol iawn. Yn gyntaf, Llyfr Tonau gan Ieuan Gwyllt. Y dyddiad argraffu arno yw 1860 - y pedwerydd argraffiad.

Credaf mai yn 1859 y mae sôn i Ieuan Gwyllt gyhoeddi ei Lyfr Tonau cyntaf ac yn ôl a ddarllenias yr oedd dwy fil ar bymtheg o gopiau wedi eu gwerthu erbyn 1863. Y mae'r llyfr hwn yn fwy diddorol serch hynny oherwydd yr enw oddi fewn iddo, sef Daniel Jones, 8fed Mawrth, 1862, Camerfawr.

'Nawr mae Camer Fawr yn enwog yn hanes lleol Tregaron oherwydd y cysylltiad rhwng y diweddar W. Ambrose Bebb a'r fferm hon - yno bu ei deulu yn byw. Cofiaf pan oeddwn yn blentyn weld Mr Ambrose Bebb pan ddeuai am wyliau at ei deulu.

LLYFRAU POBOL ERAILL

Yn awr gan VALMAI OWEN

Ond, y Daniel Jones hwn fu'n byw yno yn 1862 - pwy ydoedd ef? Yn ôl yr hanes erlidwyd ef o'i dyddyn yn ymyl Maethlon, Towyn, Sir Feirionnydd, oherwydd ei ymneilltuaeth a'i ddaliadau politicaidd adeg etholiad. Wedi dod i fyw i Gamer Fawr bu yn un o gefnogwyr ymneilltuaeth yn ardal Tregaron yn nyddiau Y Parch. Ebenezer Richard (tad y diweddar Henry Richard, A.S. yr Apostol Heddwch). Sefydlwyd nifer o Ysgolion Sul yn yr ardal o gwmpas Tregaron gyda chymorth y Daniel Jones hwn.

* * *

YR AIL lyfr yw Beibl ac ôl tipyn o draul arno. Dychwelwyd hwn o'r Unol Daleithiau gan ddyn o'r enw T.J. McCloy o

Bensylvania ar ei ymweliad â Thregaron yn Haf 1965. Bu'r Beibl yn un o drysorau mwyaf ei deulu er pan aethwyd ag ef allan gan ei dadcu, Theophilus Jones a ddaeth yn flaenllaw iawn yn hanes yr Amerig ganol y ganrif ddiwethaf.

Yr oedd yn fab i'r Parch. Theophilus Jones a oedd yn bregethwr gyda'r Trefnyddion Calfaidd. Daeth i fyw i Dregaron o Ledrod ac wedi cael ei addysg yn ysgol enwog Ystrad Meurig cyn mynd i Drefecca. Adnabyddid ef fel Thê Jones a phan oedd yn 62 oed yn 1820 aeth i Abergwili i weld yr Esgob Burgess gyda'r bwriad o gael ei dderbyn yn offeiriad gyda'r eglwys. Dywedodd yr Esgob wrtho "You are too old." Rhai blynyddoedd wedyn pan oedd yn pregethu yng Nghaerfyrddin dywedodd yn ei bregeth:

The Saviour accepts whatsoever that comes to Him even the most abject sinner and He does not say as your bishop does 'You are too old'.

Beibl y teulu hwn felly yw'r un a ddaeth yn ôl o'r Amerig. Ar dudalen o'i fewn rhoi'r manylion am enedigaethau'r teulu. Mae'n debyg mai John Jones a anwyd ar y 13eg Rhagfyr 1809 oedd y gŵr a aeth a'r Beibl i'r Amerig ac iddo gymryd enw ei dad a'i alw ei hun yn Theophilus Jones. Gan nad oedd gan y McCloy's blant na neb i drosglwyddo'r Beibl iddynt daethant ag ef yn ôl i Gymru.

Dau lyfr diddorol iawn a werthfawrogaf yn fawr. Daethant yn eiddo i'n teulu ni am y rheswm fod y llinyn teuluol yn mynd yn ôl yn bell i hanes lleol Tregaron, ac am i'm tad a'm brawd, ill dau pan oeddnt fyw gymryd diddordeb mawr yn hanes lleol tref y cynefin.

SIOP LYFRAU'R HEN BOST

45 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog

Ffôn: Blaenau Ffestiniog 831802 neu
Trawsfynydd 322 (nos)

- | | | | |
|---|--------|---|--|
| 1. JONES RHYS: Gorchestion Beirdd Cymru 1773. | £45.00 | 27. DAVIES, D. Ardudwy a'i gwron 1914. | £ 8.50 |
| 2. ELLIS, T.P.: Dolgelley and Llanelltyd 1928. | £16.00 | 28. ROWLANDS, E.D.: Dyffryn Conwy a'r Creuddyn 1947. | £ 4.50 |
| 3. ROBERTS, J.: Hanes Diweddar Rhai o Fân Genhedloedd Ewrop 1909 | £ 4.50 | 29. WHEELER, MORTIMER: The Roman Fort Near Brecon 1926. | £ 6.00 |
| 4. MORUS HUW: Eos Ceiriog 1823. Dwy gyfrol yn un. Hanner lledr. | £10.00 | 30. JONES, J.R.: Ac Onide 1970 | £12.00 |
| 5. DILIAU'R DELYN: 400 o Benillion at eu canu gyda'r tannau. d.d. | £ 5.00 | 31. ELIAS, THOMAS: Hymnau 1856. | £ 3.50 |
| 6. MORGAN, E.: Holl Ysgrifeniadau Cymraeg y Diweddar Barch. Griffith Jones, Llanddowror 1838. | £ 7.50 | 32. JONES, D.: Caniedydd Israel. | £ 4.50 |
| 7. GALWAD AT ORSEDDFAINC GRAS 1750 | £ 9.50 | 33. The Cambro Briton. Tair Cyfrol
Cyf (1) Medi 1819 Awst 1820
Cyf (2) Medi 1820 - Mehefin 1821
Cyf (3) Tachwedd 1821 - Mehefin 1822 | £35.00 |
| 8. WARLOW, G.H. The History of the Warlow Family with notes on Pembrokeshire History 1926. | £ 5.00 | 34. EDWARD, H.J.(Gol): Wales. Cyfrol 1. Mai-Rhagfyr 1911. | £ 3.00 |
| 9. HANES BRO TRAWSFYNYDD. d.d. | £ 4.00 | | |
| 10. EBEN FARRD: Cyff Beuno 1863. | £ 7.50 | Mân Bamffledi etc. | |
| 11. ROBERTS, DAVID (SARNAU BALA): Dedwyddwch Teuluaid 1875. | £ 4.00 | 35. Caniadau Bethlehem - Carolau Nadolig gyda thonau priodol gan J.D. Jones 1857. Heb glawr. | £ 3.00 |
| 12. COG ARFON: Cerddi Digrif a Serchiadol d.d. | £ 4.50 | 36. JONES, J.E. Cychwyn Plaid Cymru 1955. | £ 2.00 |
| 13. OWEN, HUGH J.: Meirioneth Volunteers and Local Militia during the Napoleonic Wars 1934. | £15.50 | 37. COELCERTH RHYDDID. Croeso i'r tri. d.d. | £ 2.00 |
| 14. PARRY MEIRION: Casgliad o Enwau Adar 1963. | £ 3.00 | 38. WILLIAMS, A. WYNN.: Ffynon Cegin Arthur sef Ffynon Ddurlyd yn Llanddeiniolen d.d. 45 tud. heb glawr. | £ 5.00 |
| 15. EDWARDS, CHARLES: Y Ffydd Ddiffuant 1811. | £12.50 | 39. THOMAS, J.: Cydymaith yr Adroddwr a LLawlyfr y Darlleniadau Ceiniog d. 63 tud. Heb glawr blaen. | £ 2.00 |
| 16. JONES, THOMAS: Gerallt Gymro 1938. | £ 9.50 | 40. PAMFFLEDI I'R OES:
Y Gwŷr Fu yn y Gadwyn
Dydd Gŵyl Bartholomew
Stephen Hughes
Christmas Evans
Howell Harris
Ficer Pritchard
Cysegr Leoedd Methodistiaid Cymru
Williams y Wern
John Myles | £ 1.00
£ 1.00
£ 1.00
£ 1.00
£ 1.00
£ 1.00
£ 1.00
£ 1.00 |
| 17. FISHER, J: The Cefn Coch Manuscripts 1899. | £20.00 | | |
| 18. WILLIAMS, J: Eglwys Loegr yn Anymddibynol ar Eglwys Rhufain 1836. | £ 6.00 | | |
| 19. MELLOR, H.: Welsh Folk Dances 1935 | £ 5.00 | | |
| 20. PRICHARD, R. (Y FICER): Cannwyll y Cymry 1807 | £10.00 | | |
| 22. JONES, HUMPHREYS, T.: Emynyddiaeth Wesleyaidd Gymraeg 1903 | £ 8.50 | | |
| 22. WILLIAMS R. (GOL): Y Seint Greal 1876. | £30.00 | | |
| 23. HAD: History of Caergwrle Castle and It's Neighbourhood 1902. | £ 6.50 | | |
| 24. WATERS, W.H. The Edwardian Settlement of North Wales 1935. | £ 9.00 | | |
| 25. MORGAN, T.J.: Y treigliadau a'u custrawen 1952. | £12.00 | | |
| 26. ASHTON, CHARLES: Bywyd ac Amserau yr Esgob Morgan 1981. | £ 6.50 | | |

Codir yn ychwanegol am gludiad.

Yr ydym yn awyddus i brynu llyfrau ail law Cymraeg a Saesneg.